UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

# Cydlynu trefniadau derbyn ysgolion

## Ffurflen ymateb i’r ymgynghoriad

Eich enw: Iona A. Davies

Sefydliad (os yw’n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad:Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 23 Chwefror 2024 i:

Y Gangen Llywodraethiant, Trefniadaeth a Derbyniadau i Ysgolion
Yr Is-adran Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg
Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau’r ffurflen yn electronig a’i hanfon i’r cyfeiriad isod:

e-bost: SchoolsManagementDivision3@llyw.cymru

**Cwestiwn 1** – A ydych yn cytuno â'r cynnig i osod gofyniad ar awdurdodau lleol i gydlynu trefniadau derbyn disgyblion ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn eu hardal?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Cwestiwn 2** – Beth yn eich barn chi yw manteision neu anfanteision cydlynu trefniadau derbyn ysgolion?

| |
|---|
| **Mae'n golygu bod mwy o gysondeb a hefyd yn sicrhau mwy o degwch wrth i rieni ddewis ysgol ar gyfer eu plant. Ymddengys y bydd hyn yn symleiddio'r holl broses. Nid yw'n deg bod rhai rhieni yn gallu dal gafael ar lefydd a, thrwy hynny, wneud pethau'n anodd i bobl eraill.** |

**Cwestiwn 3** – A ddylai'r gofyniad i ddatblygu cynllun ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn ysgolion gael ei osod ar bob awdurdod lleol neu ar awdurdodau lleol penodol yn unig yng Nghymru? Os mai dim ond ar awdurdodau lleol penodol yn unig y dylid gosod y gofyniad, ar ba awdurdodau lleol y dylid ei osod?

| **Pob awdurdod lleol** | ✓ | **Awdurdodau lleol penodol** | ☐ |
|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Dylid sicrhau cysondeb ledled Cymru.** |

**Cwestiwn 4** – A ydych yn ystyried y bydd y rheoliadau arfaethedig yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol neu ysgolion? Os 'ydw', rhowch fanylion pellach am y costau hyn.

| **Ydw** | ☐ | **Nac ydw** | ✓ |
|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Ar sail y wybodaeth yn yr ymgynghoriad, ymddengys y bydd y rheoliadau arfaethedig yn lleihau costau ychwanegol i awdurdodau lleol ac ysgolion, gan y bydd llai o debygrwydd y bydd rhieni'n apelio yn erbyn penderfyniadau. Bydd gwybodaeth am yr ysgol a ddewiswyd gan rieni ar gael yn ganolog, felly ni fydd yn rhaid treulio amser yn cwrso ymatebion.** |

**Cwestiwn 5** – A ydych yn ystyried y bydd y rheoliadau arfaethedig yn arwain at unrhyw arbedion i awdurdodau lleol, ysgolion, rhieni neu ofalwyr? Os 'ydw', rhowch fanylion pellach am yr arbedion hyn.

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ |
|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Dylai'r rheoliadau arfaethedig arwain at arbedion o ran amser – mae cwrso ymatebion yn gallu cymryd llawer o amser. Yn yr un modd, mae treulio amser ac adnoddau ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau yn gallu bod yn gostus.** |

**Cwestiwn 6** – A ydych yn cytuno y dylid ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gynnwys crynodeb o gynllun cydlynol yr awdurdod lleol yn ei brosbectws cyfansawdd bob blwyddyn, ynghyd ag esboniad clir o'r camau yn y broses o wneud cais am le mewn ysgol?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Dylai'r broses fod mor dryloyw â phosibl.** |

**Cwestiwn 7** – Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y rheoliadau arfaethedig ar gydlynu trefniadau derbyn ysgolion ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Mae'n bwysig bod rhieni sy'n dymuno dewis addysg Gymraeg i'w plant yn cael y cyfle i wneud hynny. Rhaid gwarantu bod digon o lefydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddiwallu'r angen a bod digon o lefydd yn yr ysgol Gymraeg agosaf at gartref y dysgwyr.** |

**Cwestiwn 8** – Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r rheoliadau arfaethedig ar gydlynu trefniadau derbyn ysgolion er mwyn sicrhau:

- ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; a
- nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

**Sylwadau ategol**

**Dylid rhoi sicrwydd bod y sawl sydd am dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu dymuniad. Rhaid nodi'n glir hefyd yn yr wybodaeth beth yw polisi'r awdurdod o ran addysg cyfrwng Cymraeg. Dylai pawb sydd am gael eu haddysgu drwy'r Gymraeg allu gwneud hynny, heb orfod wynebu unrhyw gostau ychwanegol e.e. costau cludiant.**

**Cwestiwn 9** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐